# PAM?

Oherwydd yr hinsawdd economaidd sydd ohoni mae Cyngor Sir y Fflint (CSFf) yn gorfod arbed £52m yn ystod y tair blynedd nesaf. Ni fydd yr arbedion anferth hyn yn cael eu cyflawni trwy arferion gwaith craffach yn unig. Bydd gwasanaethau'n gorfod cael eu cyflenwi'n wahanol, fel apêl y Cyngor at gymunedau lleol i gymryd rhan a chydweithio ar ei raglen trosglwyddo asedau cymunedol.

# BETH YW TROSGLWYDDO ASEDAU CYMUNEDOL?

Trosglwyddo Asedau Cymunedol (TAC) yw "trosglwyddo prydles ased CSFf i sefydliad gyda diben cymdeithasol ac sy'n bwriadu defnyddio'r ased er budd y gymuned leol". Mae gan CSFf adeiladau a thir sy'n cael eu defnyddio at amrywiaeth o ddibenion cymunedol a chyhoeddus a, thrwy drosglwyddo, mae'n bwriadu gwneud y canlynol:

- Cynyddu amrywiaeth a nifer yr asedau cyhoeddus sydd dan reolaeth y gymuned, gan ddarparu sylfaen asedau gynyddol i gymunedau lleol luni gwasanaethau ac sy'n diwallu eu hanghenion, a hefyd;
- Cynhyrchu ffynonellau incwm newydd i gynnal gwasanaethau cymunedol lleol a chadw asedau lleol.

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

# RHESTR LAWN O ASEDAU CYNGOR SIR Y FFLINT YN YR WYDDGRUG SY'N CAEL EU CYNNIG I'W TROSGLWYDDO

- Neuadd y Dref
- Cyfleusterau cyhoeddus yr orsaf fysiau
- Cyfleusterau cyhoeddus Stryd Newydd
- Cae Chwaraeon Maes Bodlonfa gan gynnwys y canlynol: man chwarae, maes chwarae, gerddi addurnol, Kendrick's Field, parc sglefrio, cyrtiau tennis, lawnt fowlio, pafiliwn tennis / bowlio
- Holl gaeau chwarae
- Holl fannau chwarae gydag offer
- Canolfan Daniel Owen
- Llyfrgell, Amgueddfa ac Oriel Daniel Owen
- Canolfan Glanrafon
- Canolfan Hamdden yr Wyddgrug
- Ciosg yr orsaf fysiau

Mae'n debygol y bydd asedau a gwasanaethau eraill yn cael eu cynnig i'w trosglwyddo cyn bo hir.

# RHESTR YR ASEDAU Y MAE CYNGOR TREF YR WYDDGRUG YN EU HYSTYRIED

- Neuadd y Dref
- Cyfleusterau cyhoeddus yr orsaf fysiau
- Cyfleusterau cyhoeddus Stryd Newydd
- Cae Chwaraeon Maes Bodlonfa gan gynnwys y canlynol: man chwarae, maes chwarae, gerddi addurnol, Kendrick's Field, parc sglefrio, cyrtiau tennis, lawnt fowlio, pafiliwn tennis / bowlio
- Holl gaeau chwarae
- Holl fannau chwarae gydag offer

## BETH AM Y GOST?

Darparwyd gwybodaeth am gostau rhedeg cyfredol CSFf ar gyfer y rhan fwyaf o'r Asedau Cymunedol. Os bydd Cyngor Tref yr Wyddgrug yn mabwysiadu unrhyw rai o'r Asedau hyn bydd angen iddo gyllidebu ar eu cyfer. Byddai'n edrych ar sut ellid eu rhedeg yn fwy effeithlon a thalu amdanynt, ac un dewis fyddai bod trigolion yn cael cynnydd yn eu cyfran o'r dreth i dalu costau ychwanegol.

## BETH YW CYFRAN Y DRETH?

Cyfran Cyngor y Dref o'r dreth yw'r hyn sy'n cael ei godi ar bob eiddo yn ein tref i dalu am Gyngor Tref yr Wyddgrug. Caiff ei ddefnyddio i dalu am yr holl weithgareddau sy'n cael eu gwneud gan Gyngor Tref yr Wyddgrug er lles ein cymuned. Mae Cyngor y Dref yn cynhyrchu cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf sy'n manylu'r hyn y bwriadwn wario'r arian arno. Mae cyfran y dreth yn cael ei chasglu, ar ran Cyngor Tref yr Wyddgrug, gan CSFf trwy daliadau Treth y Cyngor. Am y flwyddyn 2015/16 cyfanswm cyfran y dreth ar gyfer yr Wyddgrug yw £230,491, sy'n dod i £54.42 fesul aelwyd Band D ar gyfartaledd.

# NEUADD Y DREF (Ffordd yr Iarll)

**Disgrifiad:** Adeilad deulawr ar wahân gydag islawr rhannol, a adeiladwyd ar dri gwahanol gyfnod, yr adeilad gwreiddiol yn dyddio o 1911. Mae gan yr adeilad restriad Gradd II, fel y bydd angen ystyried unrhyw waith atgyweirio neu addasu'n ofalus a chael caniatâd cynllunio.

Yn yr adeilad ar hyn o bryd mae Cyngor Tref yr Wyddgrug, Fforwm Anabledd Sir y Fflint, Undeb Credyd Sir y Fflint ac Adran Farchnadoedd CSFf. Gwnaed arolygon adeiladwaith ac asbestos manwl gan Gyngor Tref yr Wyddgrug a CSFf sy'n rhoi amcangyfrif o gostau am waith atgyweirio a chynnal, ac maent ar gael ar gais.



**Crynodeb Costau (Medi 2014)**

| | |
|---|---|
| • To | £66,000 |
| • Lloriau a grisiau | £29,499 |
| • Nenfydau | £5,007 |
| • Muriau, ffenestri a drysau allanol | £55,275 |
| • Muriau a drysau mewnol | £6,844 |
| • Gwasanaethau mecanyddol | £3,858 |
| • Gwasanaethau trydanol | £35,554 |
| • Ailaddurno | £12,074 |
| • Dodrefn sefydlog a gosodion | £3,850 |
| • **Cyfanswm** | **£217,961** |

**Costau rhedeg cyfredol (2013-2014)**

| | |
|---|---|
| • Adeilad/Cyfarpar/ iroedd | £6,239 |
| • Ynni | £5,092 |
| • Rhenti/Trethi/Dŵr | £802 |
| • Gwasanaeth glanhau | £4628 |
| • **Cyfanswm** | **£16,753** |



# CYFLEUSTERAU CYHOEDDUS

## Cyfleusterau cyhoeddus maes parcio Stryd Newydd

**Disgrifiad:** Adeilad brics annibynnol yn cynnwys toiledau cyhoeddus gwryw, benyw ac anabl ynghanol y maes parcio. Ar hyn o bryd yn cael eu gwasanaethu a'u cynnal gan CSFf fel gwasanaeth di-dâl i'r cyhoedd, cawsant eu nodi gan CSFf fel Ased Cymunedol mewn perygl. Mae CSFf wedi cynnig rhoi rhyw £13,000 i Gyngor Tref yr Wyddgrug fel cyfraniad tuag at ailwampio, neu bydd CSFf yn gwneud mân waith atgyweirio cyn unrhyw drosglwyddo.



**Costau'r eiddo 2013/14:**

- Adeilad / Cyfarpar / Tiroedd £2,802
- Ynni £1,013
- Trethi / Dŵr £4,132
- **Cyfanswml** **£7,948**

## Cyfleusterau cyhoeddus yr orsaf fysiau

**Disgrifiad:** Adeilad brics gyda chiosg ynghlwm, yn cynnwys toiledau cyhoeddus gwryw, benyw ac anabl ym mhrif orsaf fysiau'r Wyddgrug. Ar hyn o bryd yn cael eu gwasanaethu a'u cynnal gan CSFf fel gwasanaeth di-dâl i'r cyhoedd.

**Costau'r eiddo 2013/14:**

- Adeilad/Cyfarpar/Tiroedd £2,977
- Trethi/Dŵr £2,176
- **Cyfanswm** **£5,153**



# MEYSYDD CHWARAE

## Ffordd Victoria



**Disgrifiad:** Darn mawr o dir glas agored tua 9,467 metr sgwâr.

**Costau cynnal:** Nid oes unrhyw gostau ar gael ar gyfer cynnal llecynnau glas.

# MANNAU CHWARAE GYDAG OFFER GYDA MEYSYDD CHWARAE

## Parc y Dref, Maes Bodlonfa







**Disgrifiad:** Parc 'Cyrchfan' allweddol mewn lle canolog yn nhref yr Wyddgrug sy'n cynnig amrywiaeth o wahanol ofodau gan gynnwys man chwarae plant gydag offer, gerddi addurnol, lleiniau chwaraeon, cyrtiau tennis, lawntiau bowlio, pafiliwn, parc sglefrio a Kendrick's Field.

**Costau cynnal:** Safle 'Cyrchfan' tua £2,500 y flwyddyn. Nid oes unrhyw gostau ar gael ar gyfer cynnal llecynnau glas.

# MANNAU CHWARAE GYDAG OFFER GYDA MEYSYDD CHWARAE

## Parc y Dref, Maes Bodlonfa







**Disgrifiad:** Cyfleuster chwarae â defnydd mawr arno'n gwasanaethu poblogaeth o blant a phobl ifanc sy'n ffurfio rhyw 27% o ddalgylch y man chwarae. Mae'n gallu darparu ar gyfer pobl ifanc hyd at 19 oed. Y farn yw bod y man chwarae hwn mewn cyflwr da iawn heb fod angen llawer o waith cynnal.

**Costau cynnal:** Safle parc sglefrio tua £2,000 y flwyddyn, nid oes unrhyw gostau ar gael ar gyfer cynnal y cwrt tennis na'r pafiliwn.

# MANNAU CHWARAE GYDAG OFFER GYDA MEYSYDD CHWARAE

## Gas Lane



**Disgrifiad:** Un o ddau fan chwarae plant gydag offer 'Cymdogaeth' yn yr Wyddgrug, yn gwasanaethu poblogaeth plant ac ieuenctid sy'n ffurfio rhyw 23% o'i ddalgylch. Cafodd y man chwarae fuddsoddiad sylweddol yn ddiweddar gydag offer chwarae newydd gwell trwy gyllid cyfatebol rhwng Cyngor Tref yr Wyddgrug a CSFf.

**Costau cynnal:** Safle 'Cymdogaeth' tua £1,700 y flwyddyn. Nid oes unrhyw gostau ar gael ar gyfer cynnal llecynnau glas.



# MANNAU CHWARAE GYDAG OFFER GYDA MEYSYDD CHWARAE

## Park Avenue



**Disgrifiad:** Un o ddau fan chwarae plant gydag offer ‘Cymdogaeth’ yn yr Wyddgrug. Cyfleuster chwarae â defnydd mawr arno’n gwasanaethu poblogaeth plant ac ieuenctid yn gallu darparu ar gyfer pobl ifanc hyd at 19 oed, sy’n ffurfio rhyw 23% o’i ddalgylch. Y farn yw bod y man chwarae gydag offer mewn cyflwr gwael ac angen llawer o waith cynnal.

**Argymhelliad:** Oherwydd galw hysbys a faint o ddefnydd sydd ar y cyfleuster hwn y disgwyl yw y bydd gofyn gwelliannau.

**Costau cynnal:** Safle ‘Cymdogaeth’ tua £1,700 y flwyddyn. Nid oes unrhyw gostau ar gael ar gyfer cynnal llecynnau glas.



# MANNAU CHWARAE GYDAG OFFER GYDA MEYSYDD CHWARAE

## Maes y Dre (oddi ar Ffordd Dinbych)



**Disgrifiad:** Man chwarae plant gydag offer 'Lleol', â defnydd eithaf da arno'n gwasanaethu poblogaeth plant ac ieuenctid hyd at 14 oed sy'n ffurfio 16% o'i ddalgylch. Y farn yw bod y cyfleusterau chwarae ar gyfer plantos mewn cyflwr gwael ac angen eu disodli.

**Argymhelliad:** Dal i arolygu, cynnal a gwella lle bo modd. Y disgwyl yw y bydd y man chwarae hwn angen buddsoddiad sylweddol o fewn y 5 mlynedd nesaf.

**Costau cynnal:** Safleoedd man chwarae 'Lleol' tua £1,350 y flwyddyn. Nid oes unrhyw gostau ar gael ar gyfer cynnal llecynnau glas.



# MANNAU CHWARAE GYDAG OFFER MEWN LLECYN GLAS AMWYNDER

## Bryn y Beili



**Disgrifiad:** Man chwarae plant gydag offer ‘Lleol’ ar Fryn y Beili. Bryn y Beili yw safle Tomen Normanaidd a dau Feili a ddynodwyd yn Heneb Restredig. Y farn yw nad oes digon o ddefnydd ar y man chwarae gydag offer, sy’n gwasanaethu poblogaeth plant ac ieuenctid hyd at 8 oed sy’n ffurfio 16% o’i ddalgylch.

**Argymhelliad:** Y farn yw nad yw’r cyfleuster hwn yn cyfiawnhau rhagor o fuddsoddi cyn gweithredu cynllun adfywio ar gyfer Bryn y Beili. Mae’n ddiogel dal ei ddefnyddio ac mae costau ei gynnal yn isel.

**Costau cynnal:** Safleoedd mannau chwarae ‘Lleol’ tua £1,350 y flwyddyn. Nid oes unrhyw gostau ar gael ar gyfer cynnal y Beili Mewnol.



# MANNAU CHWARAE GYDAG OFFER MEWN LLECYN GLAS AMWYNDER

## Parc y Santes Fair (Bryn Coch Uchaf)

**Disgrifiad:** Man chwarae plant gydag offer 'Lleol' â defnydd eithaf da arno'n gwasanaethu poblogaeth plant ac ieuenctid hyd at 14 oed sy'n ffurfio 30% o'i ddalgylch.



**Argymhelliad:** Dal i arolygu, cynnal a gwella'r cyfleuster chwarae hwn. Y rhagolwg yw y bydd angen rhai gwelliannau i'r parc hwn. Dylid achub ar y cyfle i ymgysylltu â'r gymuned leol i nodi blaenoriaethau chwarae.

**Costau cynnal:** Safleoedd mannau chwarae 'Lleol' tua £1,350 y flwyddyn. Nid oes unrhyw gostau ar gael ar gyfer cynnal llecynnau glas.



# MANNAU CHWARAE GYDAG OFFER

## Bryn Hilyn Lane



**Disgrifiad:** Man chwarae plant gydag offer 'Lleol', â defnydd eithaf da arno, yn gwasanaethu poblogaeth plant ac ieuenctid dan 8 oed sy'n ffurfio 24% o'i ddalgylch. Y farn yw ei fod mewn cyflwr da ac angen ond ychydig waith cynnal.
**Argymhelliad:** Dal i gadw golwg ar y man chwarae hwn gyda'r nod o fuddsoddi ynddo o fewn 5-7 mlynedd.
**Costau cynnal**:Safleoedd mannau chwarae 'Lleol' tua £1,350 y flwyddyn. Nid oes unrhyw gostau ar gael ar gyfer cynnal llecynnau glas.

## Chapel Street (Ffordd Glanrafon)



**Disgrifiad:** Man chwarae plant gydag offer 'Lleol', â defnydd eithaf da arno, yn gwasanaethu poblogaeth plant ac ieuenctid dan 8 oed sy'n ffurfio 23% o'i ddalgylch. Bydd yn cael gwelliannau sylweddol yn 2015/16 trwy gyllid cyfatebol CTW a CSFf ac arian Adran 106.
**Argymhelliad:** Dal i arolygu a chynnal.
**Costau cynnal:** Safleoedd mannau chwarae 'Lleol' tua £1,350 y flwyddyn. Nid oes unrhyw gostau ar gael ar gyfer cynnal llecynnau glas.

# MANNAU CHWARAE GYDAG OFFER

## Ffordd Pentre



**Disgrifiad:** Man chwarae plant gydag offer 'Lleol', â defnydd eithaf da arno, yn gwasanaethu poblogaeth plant ac ieuenctid dan 8 oed sy'n ffurfio 23% o'i ddalgylch. Y farn yw ei fod mewn cyflwr gwael ac angen gwaith cynnal cymedrol.
**Argymhelliad**: Dal i gadw golwg ar y cyfleuster chwarae hwn. Mae disgwyl y bydd angen ailwampio rhannol o fewn 3-5 mlynedd.
**Costau cynnal**: Safleoedd mannau chwarae 'Lleol' tua £1,350 y flwyddyn. Nid oes unrhyw gostau ar gael ar gyfer cynnal llecynnau glas.

## Hawthorn Avenue



**Disgrifiad**: Man chwarae plant gydag offer 'Lleol', â defnydd eithaf da arno, yn gwasanaethu poblogaeth plant ac ieuenctid dan 8 oed sy'n ffurfio 27% o'i ddalgylch. Y farn yw ei fod mewn cyflwr eithaf ac angen gwaith cynnal cymedrol.
**Argymhelliad**: Bydd y man chwarae hwn yn gofyn buddsoddiad i adnewyddu eitemau offer ac isadeiledd o fewn 5 mlynedd.
**Costau cynnal:** Safleoedd mannau chwarae 'Lleol' tua £1,350 y flwyddyn. Nid oes unrhyw gostau ar gael ar gyfer cynnal llecynnau glas.

# MANNAU CHWARAE GYDAG OFFER

## Is y Coed



**Disgrifiad**: Man chwarae plant gydag offer 'Lleol', â defnydd eithaf da arno, yn gwasanaethu poblogaeth plant ac ieuenctid dan 8 oed sy'n ffurfio 24% o'i ddalgylch. Y farn yw ei fod mewn cyflwr da ac angen ond ychydig waith cynnal.

**Argymhelliad**: Dal i arolygu, cynnal a gwella'r cyfleuster chwarae lleol bach hwn lle bo modd.
**Costau cynnal**: Safleoedd mannau chwarae 'Lleol' tua £1,350 y flwyddyn. Nid oes unrhyw gostau ar gael ar gyfer cynnal llecynnau glas.

## Llys Pont y Garreg (Ffordd Wrecsam)



**Disgrifiad:** Man chwarae plant gydag offer 'Lleol', â defnydd eithaf da arno, yn gwasanaethu poblogaeth plant ac ieuenctid dan 8 oed sy'n ffurfio 24% o'i ddalgylch. Y farn yw ei fod mewn cyflwr da ac angen ond ychydig waith cynnal.

**Argymhelliad:** Dal i arolygu, cynnal a gwella'r cyfleuster chwarae hwn.

**Costau cynnal:** Safleoedd mannau chwarae 'Lleol' tua £1,350 y flwyddyn. Nid oes unrhyw gostau ar gael ar gyfer cynnal llecynnau glas.

# MANNAU CHWARAE GYDAG OFFER

## Lôn Cae Del



**Disgrifiad:** Man chwarae plant gydag offer 'Lleol', â defnydd eithaf da arno, yn gwasanaethu poblogaeth plant ac ieuenctid dan 8 oed sy'n ffurfio 28% o'i ddalgylch. Y farn yw ei fod mewn cyflwr da ac angen ond ychydig waith cynnal.
**Argymhelliad:** Dal i arolygu a chynnal. Y disgwyl yw y bydd angen buddsoddiad o fewn y 5-7 mlynedd nesaf.
**Costau cynnal:** Safleoedd mannau chwarae 'Lleol' tua £1,350 y flwyddyn. Nid oes unrhyw gostau ar gael ar gyfer cynnal llecynnau glas.

## Maes y March (Clayton Road)



**Disgrifiad:** Man chwarae plant gydag offer 'Lleol', â defnydd eithaf da arno, yn gwasanaethu poblogaeth plant ac ieuenctid dan 8 oed sy'n ffurfio 25% o'i ddalgylch. Y farn yw ei fod mewn cyflwr eithaf ac angen ond ychydig waith cynnal.
**Argymhelliad:** Bydd y man chwarae hwn yn gofyn ail-wampio ymhen 3-5 mlynedd; mae'r man chwarae'n 20 oed bellach.
**Costau cynnal:** Safleoedd mannau chwarae 'Lleol' tua £1,350 y flwyddyn. Nid oes unrhyw gostau ar gael ar gyfer cynnal llecynnau glas.

# MANNAU CHWARAE GYDAG OFFER

## Maes y Tŵr (Ffordd Nercwys)



**Disgrifiad:** Man chwarae plant gydag offer 'Lleol', â defnydd eithaf da arno, yn gwasanaethu poblogaeth plant ac ieuenctid dan 8 oed sy'n ffurfio 24% o'i ddalgylch. Y farn yw ei fod mewn cyflwr rhagorol ac angen ond ychydig waith cynnal.
**Argymhelliad:** Dal i arolygu, cynnal a gwella lle bo modd. Mae'n debygol y bydd angen adnewyddu eitemau unigol o offer o fewn y 5 mlynedd nesaf.
**Costau cynnal:** Safleoedd mannau chwarae 'Lleol' tua £1,350 y flwyddyn. Nid oes unrhyw gostau ar gael ar gyfer cynnal llecynnau glas.

## Parc Alun



**Disgrifiad:** Man chwarae plant gydag offer 'Lleol', â defnydd eithaf da arno, yn gwasanaethu poblogaeth plant ac ieuenctid dan 14 oed sy'n ffurfio 23% o'i ddalgylch. Y farn yw ei fod mewn cyflwr da ac angen gwaith cynnal cymedrol.
**Argymhelliad:** Dal i arolygu, cynnal a gwella lle bo modd. Mae'n debygol y bydd angen ailwampio o fewn 5-7 mlynedd.
**Costau cynnal:** Safleoedd mannau chwarae 'Lleol' tua £1,350 y flwyddyn. Nid oes unrhyw gostau ar gael ar gyfer cynnal llecynnau glas.